W.3.9451

8½ 1
2 - 4 - 6
86 - 5 - 6
1 - 10 - 0
3 - 15 - 0
£91 - 10 - 6

# MARWNAD,

AR

# FARWOLAETH,

Y PARCHEDIG,

## *DAFYDD EVAN,*

GWEINIDOG EGLWYS Y BEDYDDWYR

YN CYFARFOD YN

## *CILFOWIR,*

*Yn Sir BENFRO. Gorphenodd ei gyfa yn ddisymmwth Ionawr 24 o Chwefror 1808.*

GAN JONATHAN DAFYDD.

Fenni:
ARGRAPHWYD GAN I. C. WATKINS.
1808.

John Davis his book

314.305.20

# MARWNAD,

## &c.

O'R fath newydd! blin galarus
  Swniodd yn fy nglustiau I,
Am un *brawd* a *thad* crefyddol
  A chydymaeth yn y llu,
Pan y glywais I, fod *Dafydd*,
  'Nawr yn gorwedd yn y bedd,
Gorfu arnaf wylo dagrau,
  Gorfu arnaf newid gwedd.

Torrodd angau 'r cwlwm undeb
  Rwng ei gorph ai enaid ef,
Y mae 'i gorph ef yn y ddaear,
  Mae ei enaid yn y nef;
Ar yr olwg hyfryd yma
  Ei fod ef yn gwledda 'nawr,
Mae fy ngbfid I am galar
  'Wedi troi'n llawenydd mawr.

*Dafydd Evan* ti ddihangaist,
  N'welaf byth m'oth wyneb llon,
Ac ni chlywaf m'oth leferydd
  Mwyach ar y ddaear hon;
Ti orphenaist ben di yrfa
  Aethost' maes or gofid blin,
Gwaith sydd genit 'nawr yw canmol
  Duw ai ras am achub dyn.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES

Gweithiwr diwyd jawn oedd Dafydd
  Tra bu yma ar y llawr,
"Aeth yn forau jawn i'r winllan
  Gweithiodd yno megis cawr,"
Fe gyfarfu a gofidiau
  Gorthrymderau lawer jawn,
Caes ei gynnal gan yr Arglwydd
  O foreuddydd hyd brydnawn.

*Trugain* mlynedd lawn a deuddeg
  Fe fu yma 'n carrio'r gro's,
Megis Moses yn was ffyddlon
  Dros ei Arglwydd ddydd a nos;
Pan yr o'dd yn unarbymtheg
  Cofiodd ei Greawdwr Mawr,
Carodd weddus ordinadau
  Brenin nef a daear lawr.

Fe ddechreuodd osod allan
  Fawredd Jesu Grist ai glod,
Ai fawr gariad at bechadur
  Pan yr o'dd yn ddeunaw o'd;
Unarbymtheg lawn ac ugain
  Bu'n Weinidog Eglwys Dduw,
Wyth a phedair ugain mlynedd
  Y bu yn y byd yn byw.

Fe a rodiodd yn bur addas
  Yma trwy holl ddyddiau'i oes,
Trwy fod bugail mawr y defaid
  Yn ei arwain ddydd a nos;
Darfu'r Arglwydd yw ei gadw
  Tra bu yn yr anial hyn,
Er gogoniant i'w ei enw
  Hyd nes aeth i Sion fryn.

Ei holl bleser ai hyfrydwch
  Tra bu yma i's y ne',
Oedd pregethu 'fengyl Jesu
  A mynegi 'i gariad e';
Soniau 'n fynych am ei gariad
  At ei bobl cyn ei bod,
A dangosau 'r angenrheidrwydd
  Yddynt hwy fynegu 'i glod.

Soniau am y Tad yn caru
  'Am y Mab yn prynu 'n ddrud,
'Am yr Yspryd yn sancteiddio
  Ac yn galw 'maes or byd;
Soniau 'n fynych gyda' Joan
  Am fawr gariad Tri yn Un,
Draw mewn arfaeth cyn bod amser
  Tu ag at golledig ddyn.

Dwedau am yr iechawdwriaeth
  I fod hon i gyd ō Duw,
Gwedi 'i gorphen trwy farwolaeth
  Jesu Grist sydd 'nawr yn fyw;
Rhinwedd aberth pen Calfaria
  Oedd ei gysur ef ai sail,
Ei holl obaith am ddedwyddwch
  Oedd trwy haiddiant Adda'r ail.

Fe bregethau 'n ol'r ysgrythur
  I fod pawb ō ddynolryw,
Gwedi myn'd i golledigaeth
  Ac yn wir elynion Duw;
Mynych y llefarau 'n eglur
  Am ogoniant Jesu Grist,
Ac am rhinwedd mawr ei aberth
  I lanhau 'r pechadur trist.

Fe ddangosau 'n ol y Bibl
  Mae trugaredd rhad ei Dduw,
Yw fod neb or colledigion
  Gwedi cael eu cadw 'n fyw;
Cyfiawn uniawn ydyw 'r Arglwydd
  Yn ei waith yn achub rhai,
Rhai a garwyd ac a brynwyd
  Oddi wrth eu poen au gwae.

Fe ddywedai fel dywedodd
  Brenin nef a daear lawr,
Byth ni chollir mor duwiolion
  Hwy ddont oll i Salem fawr;
Er cânt lawer ò ofidiau
  Yn y byd tra byddant byw,
Nid oes un peth mwy nag angau
  Ai gwahanau hwy au Duw.

Rhodiwr addas i'r efengyl
  Hynod jachus yn y ffydd,
Ydodd *Dafydd Evan* fwynaidd
  Tra bu yma yn ei ddydd;
Ond yn awr mae' gwedi blaenu
  Tua'r byth dragwyddol wlad,
'Nawr mae'n canmol ac yn moli
  Duw am jechawdwriaeth rhad.

*O Cilfowir! O Cilfowir!*
  Faint yw'r golled â ge's di,
Colli milwr enwog hynod
  O'dd mor ffyddlon yn y llu;
Dawn pregethu, dawn cynghoru,
  Dawn ceryddu lle 'roedd bai,
Oedd gan *Dafydd Evan* fwynaidd
  Nid oes neb all dd'wedid llai.

O *Cilfowir* mawr yw 'th golled
  Ar ol *Dafydd* sydd yn awr,
Gwedi dianc tu ag 'adre'
  'Canu gyda'r dyrfa fawr ;
Pan oedd yma ar y ddaear
  Yn llafurio yn eich plith,
Trwyddo chwi a dderbyniasoch
  Llawn fendithion fel y gwlith.

Nawr wrth gofio 'i ymadroddion
  Ai gyngohrion melus llawn,
Y mae llawer yn ochneidio
  Ac yn wylo 'n chwerw jawn ;
O'r fath alar ! O'r fath wylo !
  Sydd o fewn yr Eglwys hyn,
Gwedi colli bugail ffyddlon
  Tra' bu yma yn y glyn.

Frodyr a chwiorydd anwyl
  Nid oes rhaid i'ch lwfwrhau,
Y mae Arglwydd yr arglwyddi
  Yn ddaionus yn parhau :
Er ei fod yn galw amryw
  Adre' tua'r hyfryd wlad,
Mae yn codi rhai or newydd
  I rhyfela 'r faes y gwa'd

Duw a lwyddo 'r gweinidogion
  Ar cenhadon, etto sydd,
Yn eich plith chwi yn llafurio
  Ac 'n dioddef gwres y dydd ;
Boed y fraich dragwyddol gadarn
  Yn eu nerthu yn y blaen
Trwy bob trallod a gofidiau
  Hyd nes do'nt i Salem làn.

Nid yn unig yn *Cilfowir*
  Y mae 'r galar hyn yn bod,
Ond trwy holl ardalodd Cymry
  Llle bu 'n tramwy i's y rhod;
Farwel iti *Dafydd Evan*
  N' welaf byth mo honot ti,
Mewn cwrdd cwarter na chymanfa
  Ar y ddaear gyda ni.

Nawr mi droiaf atoch chwithau
  Frodyr a chwiorydd cu,
Fe fydd rhaid y chwi wynebu
  Y diwrnod tywyll du;
Llwybyr ac mae *Dafydd Evan*
  Gwedi ei dramwyo 'n wir,
Rhaid i bawb ō honom ninnau
  Gerdded hwnw cyn bo hir.

Mater mawr yw mater enaid
  Sydd fwy gwerthfawr na'r holl fyd,
Gwerthfawrocach yw na golud,
  Mwy ei werth na'r perlau drud;
O am 'nabod grym duwioldeb
  Cyn y delo brenin braw,
O am 'nabod archoffeiriad
  Ar y cenfor garw draw.

Deled angau pryd y delo
  Ai awdurdod yn ei grym,
Nid os rhaid ir gwir gristnogion
  Gweddus gwirion ofni dim;
Serch ei gwrddyd wrth dramwyo
  Yma ar y ddaer lás,
Neu mewn rhyfel fel Josiah
  'Rhwn a glwyfwyd ar y ma's

Mae eu Prynwr gwedi maeddu
Angau, uffern, byd ar bedd,
Ac fe gododd fynu 'n brydferth
Fel eu pen yn hardd ei wedd;
Hwythau a gant etifeddu
Teyrnas nefol berffaith jawn,
Mewn dedwyddwch maith tragwyddol
Heddwch a llawenydd llawn.

Henffych forau'r adgyfodiad
Pryd bydd Sion wych yn hardd,
Yn ddisgleriach fil o weithiau
Nag o'dd Adda yn yr ardd;
Patriarciaid, prif ddiwygwyr,
Gweledyddion geinwyr gwiw,
Gyda *Dafydd Evan* dduwiol
Yno ar ddeheu-law Duw.

O'r fath hyfryd wych gyfarfod!
Gorfoleddus a fydd hwn,
Ni bydd neb or gwaredigion
Diwair ffyddlon dan eu pwn;
Yno bydd y llu bendigaid,
Prynedigion ò bob jaith,
Yn cydfoli ar seraphiad
Gwych i dragwyddoldeb maith.

Fe fydd pawb or gwir dduwiolion
Gwedi 'u golchi yn y gwa'd,
Gyda 'u hanwyl briod Jesu
Yno yn y nefol wlad;
Pawb au palmwydd yn eu dwylaw
Yn hardd jawn mewn gynau gwyn,
O fy enaid gwerthfawr 'innau!
Pa le byddi di pryd hyn?

DIWEDD.